10 Peth
Y Dylai Ysgolion Wybod am
GERDDORIAETH

MUSIC MARK

CEFNOGI CYSYLLTU DYLANWADU

Clywed y Gerddoriaeth

Mae cerddoriaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at fywyd pob ysgol a dylid ei ddathlu, ei hyrwyddo a'i annog. Mae'n helpu i gynyddu hunan-barch a hunanddisgyblaeth disgyblion ac yn arwain at safonau uwch ar draws y cwricwlwm. Heddiw mae llawer mwy o ysgolion yn cael budd o'r grym trawsnewidiol y mae cerddoriaeth yn ei gynnig i ddisgyblion, staff a rhieni ochr yn ochr â chymuned ehangach yr ysgol.

Mae'r llyfryn hwn yn crynhoi 10 o fanteision allweddol cerddoriaeth, o gydnabyddiaeth Llywodraeth y DU yn eu 'Cynllun Cenedlaethol Cerddoriaeth mewn Addysg' yn Lloegr, bod cerddoriaeth yn floc adeiladu addysgol hyd at natur gynhwysol cerddoriaeth beth bynnag fo gallu'r disgybl.

Mae Music Mark yn ymroddedig i gefnogi a helpu pob ysgol i ddarparu addysg gerddorol o'r safon uchaf i'w disgyblion. Gall cerddoriaeth wella enw da eich ysgol, lefelau cyrhaeddiad, a bywydau disgyblion. Er mwyn cael mynediad at adnoddau addysgu am ddim ewch i: **www.musicmark.org.uk/resources**

Mae cerddoriaeth yn rhoi hwb i welliant ysgol

Mae ysgol lwyddiannus yn aml yn ysgol gerddorol. Gall cerddoriaeth fod yn gatalydd i droi ysgol dda yn un eithriadol. Pan roddir cyfle i hud cerddoriaeth dreiddio trwy’r cwricwlwm cyfan gall gael effaith gadarnhaol ar bopeth o gyrhaeddiad academaidd i bresenoldeb myfyrwyr.

Yn Ysgol Gynradd Dallow yn Luton, aeth yr ysgol o Gamau Arbennig i Dda yn ôl Ofsted. Mae 98% o’r myfyrwyr yn ddysgwyr Saesneg ail-iaith. Er mwyn helpu'r disgyblion i ennyn hyder yn eu sgiliau iaith a chyfathrebu, mae cerddoriaeth yn awr yn rhan o ddiwylliant yr ysgol ac mae wedi cael nifer o effeithiau ychwanegol, fel rhoi hwb i fathemateg a chyrhaeddiad llythrennedd, yn ogystal â gwella morâl y staff a chymuned yr ysgol.

2

Mae cerddoriaeth yn gwella sgiliau dysgu

Dangosodd ymchwil gan Brifysgol Llundain yn glir y manteision gwybyddol y mae cerddoriaeth yn eu rhoi i blant ifanc yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 1, gan awgrymu y gall cerddoriaeth gefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd a sgiliau gwrando.

Hallam (2015, p. 72) **'yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth o'r astudiaethau cydberthyniad yn awgrymu bod gan blant sy'n cael hyfforddiant cerddorol fanteision ar draws yr holl bynciau ysgol ac eithrio chwaraeon hyd yn oed pan ystyrir eu deallusrwydd cyffredinol'. Mae pwysau'r dystiolaeth yn awgrymu perthynas gadarnhaol rhwng cyrhaeddiad cyffredinol a chreu cerddoriaeth.**

> **"Nid yn unig mae cerddoriaeth yn rhoi boddhad mawr, mae hefyd yn lwyfan i greu cyfeillgarwch parhaol ac i wneud gwahaniaeth."**
> **– RUTH, RHIANT UN O AELODAU CERDDORFA IEUENCTID ROBIN HOOD, GWASANAETH CERDD NOTTINGHAM**

3 Mae cerddoriaeth yn meithrin gweithio mewn tîm

Mae chwarae mewn grwpiau bach, mewn dosbarth cyfan neu yn unrhyw ensemble neu gerddorfa yn golygu eich bod yn rhan o dîm integredig. Mae gan bawb ei rôl pa bynnag mor fawr neu fach, mae hyn yn helpu i sefydlu cydweithredu a chefnogi ei gilydd. Mae'n hyrwyddo pwysigrwydd gweithio yn effeithiol ag eraill tuag at un nôd cyffredin.

> **"Mae wedi bod yn bleser gweld ein cerddorion ifanc yn tyfu ac yn datblygu eu hyder. Mae ymdeimlad cadarnhaol cynyddol, gwaith tîm, gwytnwch ac annog ei gilydd i fod yn llwyddiannus wedi golygu bod ein plant wedi datblygu ymdeimlad gwirioneddol o berthyn ac o gymuned yn eu dosbarth."**
>
> **– PRIFATHRO - ST EDMUND'S ACADEMY, KING'S LYNN**

Daeth yr agweddau yma o gymdeithasgarwch i'r golwg mewn nifer o astudiaethau. Mewn astudiaeth ddiweddar o Hybiau Addysg Cerdd, canfu *Fautley et al. (2017)* bod arweinwyr yr hybiau yn dynodi bod gweithio mewn tîm yn agwedd allweddol o ddysgu ehangach wrth Ddysgu Ensemble Dosbarth Cyfan, ochr yn ochr ag ystod lawn o sgiliau cymdeithasol a ddatblygwyd trwy greu cerddoriaeth.

4 Mae cerddoriaeth yn cryfhau sgiliau bywyd

Mae chwarae offeryn neu ddysgu canu yn gofyn am ganolbwyntio o ddifri. Rhaid cael tawelwch a llonydd boed ar y llwyfan neu yn y dosbarth. Mae gweithio ochr yn ochr ag aelodau o grŵp offerynnol neu ganu yn helpu plant i adnabod eu sgiliau eu hunain ac yn gwerthfawrogi rhai pobl eraill. Bydd hyn yn cryfhau sgiliau bywyd fel empathi, datrys problemau a chyfathrebu, ac ymdeimlad o gyfrifoldeb ac ymrwymiad.

"Dylai cerddoriaeth, i mi, fod yn guriad calon ysgol. Mae'r llu o sgiliau bywyd a ddatblygir trwy gerddoriaeth yn rhan sylfaenol o gwricwlwm cyfoethog a chreadigol."

– ANDREW STOCKTON, PENNAETH, YSGOL IAU SARISBURY, SWYDD HAMPSHIRE

"Yn fy mhrofiad i, pan fydd y plant yn canu mewn dosbarth, rydym yn sylwi ar gynnydd yn eu sgiliau canolbwyntio a gwrando. Maent yn talu sylw i'r hyn sydd ganddynt i'w ganu a phryd i ymuno yn y canu. Rydych hefyd yn sylwi ar welliant gwirioneddol o ran hyder: erbyn diwedd y flwyddyn byddwch yn gweld plant yn codi ar eu traed ac yn gwirfoddoli i ganu ger bron y dosbarth sy'n beth mawr i blant 4 i 5 oed."

– HELEN DEAN, ATHRO BLWYDDYN 1 YN YSGOL GYNRADD FOXHILL, BRADFORD

Mae cerddoriaeth yn sylfaen i well ymddygiad

5

Er mwyn dysgu cerddoriaeth mae arnoch angen disgyblaeth. Cyn gallu chwarae yn dda rhaid ymarfer yn gyson a dangos ymroddiad. A phan fydd pobl ifanc yn mwynhau gwneud rhywbeth, fe fyddan nhw'n dal ati!

"Pan gewch chi 20 o blant gyda'i gilydd gyda'r hyn allai fod yn offerynnau swnllyd iawn, mae angen disgyblaeth ac ymddygiad ar lefel benodol, neu fe fyddwn yn eistedd yno am yr awr nesaf yn creu sŵn mawr heb unrhyw ddiben iddo. Cyn gynted ag y daw'r arweinydd i'r tu blaen a chodi ei law disgwylir i'r holl blant fod â'u hofferynnau i fyny ac yn barod i chwarae ar ôl cyfrif 4."

– GARRY WALLS, ATHRO CERDD, BRADFORD

Yn Exchanging Notes *(Kinsella, Fautley a Whittaker 2019)* canfu ymchwilwyr bod cerddoriaeth yn arwain at ddeilliannau emosiynol, seicolegol a lles cymdeithasol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef gwaharddiad addysgiadol. Roedd y deilliannau cymdeithasol yn arbennig o nodedig - ymuno â'u cyfoedion, llunio cyfeillgarwch, datblygu gwaith tîm ac empathi. Fe wnaeth hyn yn ei dro helpu i ddatblygu hunaniaeth y grŵp, gwella ymddygiad ac ysgogiad wrth geisio cynnyrch cerddorol o safon uchel.

6 Mae cerddoriaeth yn annog creadigrwydd

Mae cerddoriaeth yn galluogi pobl ifanc i fynegi eu hunain mewn ffordd wahanol i bob cyfrwng arall. Mae'n eu galluogi i siapio eu byd trwy sain ac yn gadael iddynt ddefnyddio eu dychymyg. Trwy annog creadigrwydd mae hefyd yn eu hannog i feddwl tu allan i'r blwch wrth ddatrys problemau. Er mwyn llwyddo yn y dyfodol, bydd raid i blant fod yn ddyfeisgar a llawn dychymyg, a bydd addysg celfyddydol yn helpu.

> **"Mae rôl yr Gwasanaethau Cerdd Ysgolion wrth gynnig amrywiaeth o gyfleoedd diwylliannol ar draws y ddinas yn hanfodol wrth gefnogi ysgolion i ddarparu cwricwlwm amrywiol sy'n ysbrydoli."**
>
> **– POLLY HONEYCHURCH, PENNAETH YSGOL, PORTSMOUTH**

Cyfeirir yn aml at gerddoriaeth fel rhywbeth sy'n hanfodol greadigol *(Webster, 1990)* a disgrifir cyfansoddi fel y ffurf uchaf o greadigrwydd cerddorol *(Rogers a Hallam, 2010)*. Yn y broses gyfansoddi, gall dysgwyr greu darn trwy adeiladu ar brofiadau cerddorol, gan gyfuno dylanwadau ac arbrofi.

Awgryma *Woods (1995)* bod gan ddisgyblion, yn ystod dysgu creadigol, reolaeth ar eu prosesau dysgu, a pherchenogaeth ar y wybodaeth y maent wedi ei chynhyrchu, sy'n berthnasol i'w pryderon. Mae hyn yn amlygu pa mor ganolog yw'r dysgwr wrth ddatblygu creadigrwydd, lle mae'r pwyslais ar y broses ddysgu yn hytrach na'r cynnyrch creadigol.

Mae cerddoriaeth am oes

Yn aml bydd cychwyn yn gynnar ar gerddoriaeth yn arwain at weld cerddoriaeth yn dod yn ddiddordeb angerddol am oes. Mae'r rhodd yma yn werthfawr ac er na fydd pob myfyriwr yn mynd ymlaen i chwarae mewn cerddorfa broffesiynol neu fand roc enwog, mae'r hadau a heuir yn y dosbarth yn parhau i ffynnu am oes. Gall y sgiliau a ddatblygir wrth ddysgu cerddoriaeth fwydo i'ch bywyd bob dydd, ac nid oes raid i chwarae, gwrando a mwynhau cerddoriaeth fyth ddod i ben!

Fel y mae *Lamont (2011, td. 377)* yn nodi, mae oedolion sy'n weithredol yn gerddorol yn 'glir am werth bod wedi cael cyfnodau estynedig o ymgysylltu â cherddoriaeth a hyfforddiant cerddorol'. Mae profiadau cerddorol cyson eu natur yn fwy tebygol o gael effeithiau tymor hir ar ymwneud â gweithgaredd cerddorol, a galluogi oedolion i ddod yn 'ddysgwyr llawen' *(Roulston, 2010)*. Amlyga hyn gymhlethdodau datblygu hunaniaethau cerddorol a all ffurfio a newid trwy gydol oes.

7

8

Mae cerddoriaeth yn floc adeiladu addysgol

Mae'r Adran Addysg wedi nodi y gall addysg gerddorol o safon uchel wella hunanhyder, ymddygiad a sgiliau cymdeithasol yn ogystal â gwella cyflawniad academaidd ar draws y cwricwlwm. A thra bod cerddoriaeth yn cyffwrdd bywydau pob unigolyn ifanc, y rhai difreintiedig all gael mwyaf o fudd ohono. Dyna pam ei bod mor bwysig sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at ddysgu a chreu cerddoriaeth fel rhan o'u cwricwlwm eang a chytbwys.

"Mae cynnig cerddoriaeth yn yr ysgol yn golygu bod pob plentyn yn cychwyn ar lefel wastad. Gallant ddangos cynnydd gyda'i gilydd ac mae deilliannau clir sy'n eu helpu ar eu ffordd, gan wella eu perfformiad mewn pynciau eraill. Mae'n rhoi cyfle i blant difreintiedig na fyddent yn ei gael gartref efallai neu oherwydd nad oes ganddynt fynediad at wersi preifat neu tu hwnt i'r cwricwlwm. A chan bod cerddoriaeth yn dwyn pawb at ei gilydd, gall plant ag anableddau gymryd rhan hefyd, diolch i offerynnau wedi eu haddasu neu ddulliau gwahanol o greu cerddoriaeth."

– BEN LINSEL, ATHRO BLWYDDYN 4, YSGOL GYNRADD FOXHILL, BRADFORD

Mae cerddoriaeth yn hwyl

Mae creu cerddoriaeth yn dda i'r ymennydd ac i'r galon hefyd! Mae pobl ifanc yn mwynhau'r pleser o feistroli alaw neu gân. Mae pwysigrwydd a'r ysgogiad o berfformio am y tro cyntaf o flaen cynulleidfa yn gwthio adrenalin trwy'r corff mewn ffordd na fydd yn cael ei anghofio fyth.

9

"Mae cerddoriaeth yn ffordd greadigol o fynegi fy hun ac mae'n ymarfer fy meddwl mewn ffordd hollol wahanol."

– DISGYBL YN YSGOL HUNTINGTON, SWYDD EFROG

"Rwyf wedi bod mewn cyngherddau a lleoliadau na fyddwn fyth wedi dychmygu ymweld â nhw, felly rhaid i ni beidio ag anghofio na thanbrisio'r effaith y mae cerddoriaeth yn ei gael arnom ni fel rhieni yn ogystal â'n plant."

– RHIANT UN O AELODAU'R BAND FACTORY, GWASANAETH CERDD NOTTINGHAM

10

Mae cerddoriaeth i bawb

Mae cerddoriaeth y gynhwysol beth bynnag yw gallu'r disgybl. Gall fod o fudd neilltuol i blant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig ac anableddau ond hefyd y rhai sydd ar y cyrion, yn fregus ac yn anodd eu cyrraedd yn aml. Mae cerddoriaeth yn rhoi ysgogiad unigryw i blant gymryd rhan a chyfathrebu ac mae datblygiadau technolegol yn golygu y gall mwy o blant nag erioed gymryd rhan a chael budd o fanteision niferus addysg gerddorol.

"Mae cerddoriaeth yn hollol gynhwysol i'n holl blant. Rwyf wedi cael dau blentyn sydd wedi canu cyn siarad ac rwy'n meddwl bod hynny yn ei grynhoi yn berffaith. Fe wnaeth un bachgen bach ganu cân gyfan ac nid oedd erioed wedi siarad yn yr ysgol; dyna rym cerddoriaeth i'r plant hynny. Mae'n ailadroddus a phob dydd rydych yn adeiladu ar rywbeth yr ydych wedi ei ddysgu yn barod."

– SALLY HEY, PENNAETH, YSGOL GYNRADD FOXHILL, BRADFORD

“Roeddwn i’n anobeithiol yn yr ysgol ond fe wnaeth dysgu chwarae offeryn a gweld y broses o fod yn broffesiynol fy helpu i gael trefn ar bethau ac fe ddechreuodd fy marciau i gyd wella. Nid dim ond mater o chwarae offeryn ydio, mae’n fater o’r sgiliau yr ydych yn eu dysgu ar gyfer gweddill eich bywyd sy’n gwneud cerddoriaeth mor bwysig a pham ein bod yn gwneud cymaint o ffỳs amdano.”

– SHAUN DA SILVA LONGUEIRA (ATHRO CERDD TEITHIOL)

“Mae cerddoriaeth yn rhoi bywyd i ysgol! Mae cerddoriaeth yn cael effaith gadarnhaol yn gymdeithasol ac academaidd, yn ogystal ag ar iechyd meddwl a llesiant.”

– JULIE ALLEN, PENNAETH, YSGOL GYNRADD BIRKWOOD, DE SWYDD EFROG

Cyfeiriadau

- Music Mark (2019) A place with no borders – the power of singing in Luton Schools https://www.musicmark.org.uk/news/a-place-with-no-borders-the-power-of-singing-in-luton-schools
- Valentine, E. a Evans, C. (2001) The effects of solo singing, choral singing and swimming on mood and physiological indices. British Journal of Medical Psychology, 74, 115–120.
- Clift, S., Hancox, G., Morrison, I., Hess, B., Kreutz, G. a Stewart, D. (2010) Choral singing and psychological wellbeing: Quantitative and qualitative findings from English choirs in a cross-national survey. Journal of Applied Arts and Health, 1(1), 19–34.
- Davidson, J. W. (2011) Musical participation: Expectations, experiences, and outcomes. Yn I. Deliege & J. W. Davidson (Gol.), Music and the mind: Essays in honour of John Sloboda (65–87). Rhydychen, DU: Oxford University Press.
- Lamont, A. (2011a) The beat goes on: Music education, identity and lifelong learning. Music Education Research, 13(4), 369–388.
- Pitts, S. (2005) Valuing musical participation. Aldershot, DU: Ashgate.
- Webster, P. (1990) 'Creative thinking in Music: Introduction', Music Educators Journal 76(9), 21.
- Rogers, L., Hallam, S. (2010) Music services. Yn Hallam, S., Creech, A. (Gol.), Music Education in the 21st Century in the United Kingdom – Achievements, analysis and aspirations (279–294). Llundain, DU: Institute of Education, University of London.
- Kinsella, V., Fautley, M. a Gray, S. (2018) Musical Inclusion. Service for Education Music Service. Birmingham.
- Kinsella, V., Fautley, M. a Whittaker, A. (2019) Exchanging Notes Final Report. Youth Music, Llundain.
- Woods, P. (1995) Creative teachers in primary schools. Buckingham: Open University Press.
- Fautley, M., Kinsella, V., a Whittaker, A. (2017) Whole Class Ensemble Teaching Research Report, Music Mark.
- Hallam, S. (2015) The Power of Music, Llundain, DU: International Music Education Research Centre.
- Roulston, K. (2010) '"There is no end to learning": Lifelong education and the joyful learner', International Journal of Music Education, 28(4), 341–352.

Gyda diolch i Bring the Noise y BBC am y lluniau a'r dyfyniadau o'r ffilm 10 peth. Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth, gyda diolch i Brifysgol Dinas Birmingham.

Ble Nesaf?

Aelodaeth:

Ymunwch â Music Mark!
Gweledigaeth Music Mark yw addysg gerddorol ragorol yn yr ysgol a thu allan iddi i holl blant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig, sy'n eu hysbrydoli a chyfoethogi eu bywydau. Rydym yn gwneud hyn trwy gefnogi, cysylltu a dylanwadu ar aelodau Music Mark wrth geisio addysg gerddorol o safon uchel, amrywiol a chynhwysol i bawb.

Mae ein haelodau yn cynnwys Gwasanaethau Addysg Gerddorol, eu timau addysgu a chefnogi; ysgolion; unigolion; NYMOS; cyrff Addysg Bellach/Addysg Uwch; Hwbiau a Phartneriaid Corfforaethol.

Adnoddau:

Mae adnoddau i athrawon cerdd gan gynnwys y poster 10 Peth y Dylai Ysgolion Wybod am Gerddoriaeth a fideos yn ymwneud â'r prosiect ar gael yn:

https://www.musicmark.org.uk/resources
https://www.bbc.co.uk/teach/bring-the-noise

Cadwch mewn cysylltiad:

@musicmarkuk
020 7939 6049
info@musicmark.org.uk

Rhannwch eich hoff bethau am gerddoriaeth mewn ysgolion ar Twitter gan ddefnyddio **#10Peth**

MUSIC MARK
CEFNOGI
CYSYLLTU
DYLANWADU

Chwiliwch am eich hyb addysg gerddorol lleol ar gyfarwyddiadur aelodau Music Mark yn https://www.musicmark.org.uk/members/

Gwyliwch ein fideo 10 Peth

Gyda chefnogaeth hael gan ABRSM, rhan o bartneriaeth Music Mark gydag ymgyrch Bring the Noise y BBC

MUSIC MARK

ABRSM

BBC Bring the Noise

www.musicmark.org.uk

*Chwiliwch am y fideo yn https://www.bbc.co.uk/teach/bring-the-noise